



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y cynllun llesiant lleol drafft ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Diolch ichi am anfon Cynllun Llesiant Lleol drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych atom ni fel partner ymysg ystod eang, yn amlwg, o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw.

Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod paratoi cynllun llesiant lleol yn ymrwymiad sylweddol, ac rydym yn cydnabod faint o waith sydd wedi cael ei wneud. Dyma'r ail rownd o gynlluniau, a'r gobaith yw y bydd gwersi wedi cael eu dysgu o'r fersiwn gyntaf, gan adeiladu ar yr hyn a ddigwyddodd o'r blaen.

Rydym wedi strwythuro ein hymateb i'r ymgynghoriad mewn ffordd debyg i 2018, sef fel hyn:

- Sylwadau cyffredinol sy'n crynhoi'r farn am y cynllun;
- Sylwadau mwy penodol ar y ffordd y mae'r cynllun wedi cael ei baratoi, fel sylwadau ar y ffordd y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dewis yr amcanion;
- Tabl cryno terfynol sy'n enwi'r elfennau y byddem ni'n awgrymu a allai elwa o gael eu datblygu ymhellach. Rydym yn mabwysiadu dull cyson o ymdrin â'r materion hyn, yn debyg i'r asesiadau llesiant lleol, sydd wedi cael eu categorio fel a ganlyn:
 - Categori A – materion pwysig rydym ni'n gobeithio a fyddai'n cael sylw cyn i'r cynllun terfynol gael ei gyhoeddi. Gallent ymwneud, er enghraifft, â chydymffurfio â'r gofynion statudol neu bryderon mawr gydag elfennau allweddol o'r cynllun
 - Categori B – materion a fyddai'n cryfhau'r cynllun terfynol os byddant yn cael sylw cyn i'r cynllun gael ei gyhoeddi. Er ein bod yn cydnabod efallai na fydd hynny'n bosibl yn yr amser sydd ar ôl, rydym yn meddwl y bydd y materion pwysig hyn yn ychwanegu gwerth at y cynllun ac yn eu blaenoriaethu ochr yn ochr â'r gwaith datblygu cynnar.
 - Categori C – materion a fyddai'n cryfhau'r cynllun ond y gellid rhoi sylw iddynt wrth i'r cynllun barhau i ddatblygu ac esblygu.

Byddwn yn defnyddio'r un dull i ymateb i bob un o'r cynlluniau. Y tro hwn, rydym hefyd wedi ychwanegu atodiad cysylltiedig sy'n tynnu sylw at rywfaint o'r adborth rydym ni wedi'i gael gan arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau penodol rydych chi wedi'u dewis.

Barn Gyffredinol

Mae'r cynllun hwn wedi cael ystyried yn ofalus. Mae hi'n amlwg eich bod chi wedi ystyried yn fanwl y blaenoriaethau allweddol sy'n deillio o'r asesiad llesiant. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r camau ar lefel weddol uchel ac maent yn darllen mwy fel amcanion, gan ei gwneud yn aneglur beth yw'r 'cam gweithredu' penodol neu beth allai fod. Felly, gellid cryfhau'r cynllun drwy ddatblygu camau gweithredu penodol, mesuradwy ac amserol i amlinellu sut y gellid cyflawni'r amcanion hyn. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi eich bod wedi bod yn gweithio ar y manylion hyn dros y misoedd diwethaf.

Mae'n dda gweld ei fod yn cael ei gydnabod a'i bwysleisio bod y bwrdd gwasanaeth cyhoeddus yn canolbwyntio ar feysydd lle bydd gweithio mewn partneriaeth yn cael yr effaith fwyaf a lle mae dylanwad ar y cyd yn ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes yn cael ei wneud gan sefydliadau unigol – ac mae hynny wrth galon yr hyn mae rôl bwrdd gwasanaeth cyhoeddus yn ei olygu.

Sylwadau ar elfennau penodol o'r cynllun drafft

Strwythur a Fformat

Mae'r cynllun wedi'i osod allan yn dda, ac mae'n hawdd ei ddarllen. Mae'r cyflwyniad yn gosod y cyd-destun yn ddefnyddiol i'r darllenwyr hynny sydd o bosibl yn anghyfarwydd â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ddisgrifio pwy yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a beth yw'r cynllun llesiant. Gallai'r cyflwyniad gynnwys rhagor o gefndir am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan nodi beth ydyw a beth mae'n ei wneud, gan gynnwys y pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant; yn enwedig gan fod pob un o'r adrannau ar yr amcanion yn gorffen gyda pharagraff ar sut bydd y gwaith yn cyfrannu at y nodau llesiant, ond nid oedd esboniad blaenorol o beth yw'r nodau llesiant.

Amserlenni

Mae'n galonogol eich bod yn rhoi ystyriaeth briodol i waith y dyfodol ac yn ymgorffori'r angen amdano yn eich gwaith cynllunio. Mae'r gydnabyddiaeth o'r gwaith pellach fydd ei angen dros flwyddyn gyntaf y cynllun i ganfod pryd y bydd

camau gweithredu penodol yn cael eu cyflawni, a'ch bwriad o ddefnyddio cydgynhyrchu a chyfranogiad i wneud hyn yn gam cadarnhaol.

Wrth ystyried amserlenni, bydd yn bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyflawni ar gyfer y tymor byr a gwneud hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau'r tymor hwy. Rydym yn gobeithio y bydd y cynllun terfynol yn cryfhau'r amcanion a'r camau sy'n cael eu gosod yng nghyd-destun yr hyn mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gobeithio ei gyflawni dros y tymor hirach hy, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hefyd yn werth nodi bod ystyr hirdymor yn amrywio mewn perthynas â gwahanol faterion. Mae nifer o adnoddau ar gael i'ch helpu i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer yr hirdymor, gan gynnwys [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021](#) a'r [Pecyn Cymorth Tri Gorwel](#)

Cynnwys

Mae'r pwysigrwydd a roddwch ar gynnwys rhanddeiliaid a'ch cymunedau lleol yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun yn amlwg yn gryfder ac rydym yn croesawu'r gwaith rydych chi wedi bod yn ei wneud a'r gwaith sydd gennych chi ar y gweill dros y misoedd nesaf.

Mae eich myfyrdodau ar yr heriau oedd yn wynebu ymgysylltu â chymunedau yn ystod y pandemig yn tynnu sylw at rai grwpiau nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ac y byddwch yn dymuno ymgysylltu â nhw ymhellach, gan wella dyfnder yr ymgynghori â nhw.

Mae'r cynllun hefyd yn sôn yn fyr am weithio gyda Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru; byddem yn annog rhagor o fanylion am hyn, ynghyd â rhywfaint o wybodaeth am eich gwaith fel rhan o Bartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru, ac yn olaf byddai'r ffyrdd rydych chi'n bwriadu gweithio gyda'ch cymunedau a'ch rhanddeiliaid yn y dyfodol i gyd yn cyfrannu at gynllun mwy credadwy.

Cydweithio

Mae'n ymddangos bod lefel dda o gydweithredu rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ei bartneriaid a sefydliadau eraill. Cydnabyddir y bydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio ar feysydd lle gall wneud gwahaniaeth a chael effaith hirdymor, heb ddyblygu gwaith sydd eisoes yn digwydd.

Byddem yn eich annog i edrych y tu hwnt i'r partneriaid traddodiadol i helpu i gyflawni eich amcanion; mae'n bwysig bod y bobl y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgysylltu â nhw yn gallu cynnig yr ystod ehangaf bosibl o wybodaeth, heriau adeiladol, data ac atebion i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydych eisoes wedi dangos hyn mewn rhai rhannau o'r cynllun. Byddem yn eich annog i barhau â hyn, gan estyn allan at bartneriaid sydd â diddordeb yn yr holl ymyriadau a roddir ger bron, fel rhwydweithiau cydraddoldeb, fforymau ieuenctid, gwasanaethau cymorth ar gyfer cyflogadwyedd a Chynghorau Gwirfoddol Sirol.

Rhestrir cynghorau tref a chymuned fel un o'r sectorau yn y gymuned rydych wedi ymgysylltu â nhw. Byddai'n braf gweld sut y byddwch yn parhau â hyn wrth i chi symud i'r cylch cynllunio nesaf. Byddai'n fuddiol pe byddai'r cynllun yn ystyried y rôl y gallai cynghorau cymuned a thref yr ardal ei chwarae yn y broses o gyflawni camau'r cynllun, yn enwedig y rheini sydd â dyletswydd i wneud hynny.

Integreiddio ac Atal

Cafwyd ymdrech dda i integreiddio yn y ffordd y mae 'Cymru sy'n fwy cyfartal' yn cysylltu ar draws y themâu ac yn cyd-fynd â'r achosion sylfaenol rydych chi wedi'u nodi fel rhai sy'n cyfrannu at anfantais ac anghydraddoldeb. Mae'r cynllun hefyd yn datgan y bydd yn ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd a materion sy'n ymwneud â thlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd ar draws Conwy a Sir Ddinbych, ond nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd hyn yn cael ei wneud.

Yn yr un modd, mae'n addawol eich bod wedi nodi cynaliadwyedd a'r newid yn yr hinsawdd fel rhywbeth sydd wrth wraidd popeth rydych chi'n ei wneud yn hytrach na'u trin fel mater ar wahân ac felly wedi'i ddyrannu i un o'r amcanion yn unig. Er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd fel risg i hapusrwydd, iachusrwydd a chydnerthedd cymunedau. Gallech chi ystyried mynd â hyn gam ymhellach drwy wreiddio'r newid yn yr hinsawdd ar draws y gwahanol amcanion ac efallai dangos meysydd trawsbynciol yn fwy cyffredinol. Dyma enghreifftiau lle gallai'r newid yn yr hinsawdd gael effaith bellach ar gyflawni amcanion:

- Amcan cydraddoldeb: mae gan y newid yn yr hinsawdd y potensial i waethygu anghydraddoldebau presennol, felly gallai fod yn ddefnyddiol edrych ar yr holl amcanion llesiant o'r safbwynt hwn i ddeall sut mae lliniaru'r risg hon.
- Amcan tai: gallai fod yn ddefnyddiol ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar dai a'r hyn a ystyrir yn dai o 'safon' yn y dyfodol. Mae'n debyg y bydd yr angen i ddatgarboneiddio a'r angen i addasu tai i ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel mwy o wres a llifogydd. Efallai na fydd cartrefi incwm is yn gallu fforddio hyn, felly byddai hyn yn cyd-fynd â'r amcan cydraddoldeb.
- Mae'r amcan economi'n nodi'r angen i baratoi/darparu ar gyfer swyddi economi werdd, sy'n dda i'w weld. Gall y newid yn yr hinsawdd effeithio ar fynediad at swyddi hefyd, e.e. y risg ehangach o darfu ar seilwaith ynni, TGCh, pŵer a thrafnidiaeth, yn ogystal â chadwyni cyflenwi.

Er bod camau atal wedi cael eu cyffwrdd, yn y ffordd rydych chi wedi ystyried tueddiadau'r dyfodol a'r risgiau a'r cyfleoedd cysylltiedig, rydym ni'n teimlo bod lle i fod yn fwy penodol ac ymhelaethu ar hyn. Yn fwy penodol, byddai'n ddefnyddiol archwilio sut gallai'r camau gweithredu penodol a gynigir atal problemau rhag gwaethygu, a beth yw goblygiadau dulliau ataliol o ran y ffordd y bydd y bwrdd yn gweithredu ac yn defnyddio adnoddau.

Balans ac Ehangder

Ardal Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n fwy cyfartal gyda llai o amddifadedd yw'r ardal flaenoriaeth sengl gyffredinol ac mae rhesymeg dda dros hyn ar sail yr asesiad a'r trafodaethau gyda phartneriaid a chymunedau.

Mae'r pedwar amcan isod yn ymdrin â llesiant (cymunedau hapusach, iachach a mwy cydnerth); yr economi; cydraddoldeb a thai. Mae llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael ei wau drwy'r amcanion hyn i raddau er bod hyn yn arbennig o wir am y cyntaf ar lesiant, lle mae ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gyd yn cael eu hystyried. Yn yr un modd â chynlluniau eraill, efallai fod diwylliant yn llai amlwg. Ar hyn o bryd, nid yw'r camau'n ystyried yn ddigonol yr effaith gadarnhaol y gall diwylliant a'r Gymraeg ei chael ar lawer o'r amcanion, ac o ran helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w cyflawni. Mae cyfle wedi'i golli i gynnwys llawer o asedau diwylliannol y rhanbarth fel ffordd o helpu i sicrhau llesiant. Mae'r Gymraeg wedi cael ei chydabod drwy ddweud y bydd yn cael ei chefnogi a'i hyrwyddo ym mhopeth y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud, ond gallech chi fynd gam ymhellach drwy ystyried sut gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyflawni nodau Cymraeg 2050 yn ei gynllun. Dylech hefyd ystyried gwneud datganiad rhagweithiol ynghylch sut bydd y cynllun yn cyfrannu'n ymarferol at weithredu Cymraeg 2050.

Dull Gweithredu Myfyriol a Chritigol

Ceir lefel dda o fyfyrion yn y cynllun drafft, yn enwedig o ran sut mae'r canfyddiadau allweddol o'r asesiad wedi cyfrannu at ddatblygiad ei amcanion. Rydych chi wedi defnyddio'r asesiad i dynnu sylw at bedwar ar ddeg o feysydd sy'n peri pryder penodol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda'r thema gyffredin o 'Gymru sy'n fwy cyfartal' yn cyd-fynd ag achosion sylfaenol amddifadedd ac anghydraddoldeb sydd wedi cael eu nodi. Cydnabyddir, ar gyfer llwyddiannau tymor hwy yn benodol, nad yw popeth o fewn dylanwad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus e.e. mae llwyddiant yr economi yn fwy tebygol o gael ei ddylanwadu gan ffactorau allanol.

Er mwyn cryfhau'r elfen hon o'r cynllun, hoffem weld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar unrhyw fylchau yn y sylfaen dystiolaeth a sut mae'r rhain wedi effeithio ar ddatblygiad y cynllun neu wedi dylanwadu arno.

Defnydd o dystiolaeth

Rhestrir rhai dangosyddion cyffredinol o lwyddiant a chanlyniadau disgwylidig yn y crynodeb ar ddiwedd y cynllun, ond byddai'n ddefnyddiol cynnwys camau gweithredu mwy penodol a manwl ochr yn ochr â'r rhain yn amlinellu sut y cyflawnir y canlyniadau hyn dros amser (theori newid) ac asesiad o gryfder tystiolaeth 'beth sy'n gweithio' ar gyfer ymgymryd â chamau o'r fath. Mewn achosion lle mae tystiolaeth ar goll neu'n wan, byddai hefyd yn ddefnyddiol gwybod sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn y sylfaen dystiolaeth er mwyn llywio camau gweithredu. Os bydd hyn yn cael ei wneud, bydd yn helpu i sefydlu fframwaith ar gyfer gwerthuso gweithrediad ac effaith y camau gweithredu ar gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u nodi yn y cynllun. Mae rhywfaint o ganllawiau ar fabwysiadu dull [Theori Newid](#) wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar ac mae'n cynnwys dolenni i enghreifftiau ymarferol, a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Byddwch yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y Cerrig Milltir Cenedlaethol sy'n ceisio olrhain cynnydd o ran cyflawni Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hyn yn ffordd ddefnyddiol o fonitro sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn perfformio.

Yr elfennau i'w datblygu

Categori A
Categori B Ystyried sut gellir gwneud y camau'n fwy penodol (gweler 'Sylwadau cyffredinol') Gellid rhoi mwy o bwyslais ar atal (gweler 'Integreiddio ac Atal') Angen mwy o bwyslais ar ddiwylliant (gweler 'Balans ac Ehangder')
Categori C Ystyried gwreiddio pynciau trawsbynciol (e.e. Y newid yn yr hinsawdd) ar draws y gwahanol amcanion (gweler 'Integreiddio ac Atal')

ATODIAD

Prif thema	Cam	Cyngor gan arweinwyr polisi
<p>Mae cymunedau'n hapusach, yn iachach ac yn fwy gwydn yn wyneb heriau, fel y newid yn yr hinsawdd neu gostau byw cynyddol.</p>	<p>Cefnogi cynlluniau trafndiaeth cynaliadwy a gwyrdd sy'n gwella ansawdd aer yn gyffredinol, gan gynnwys cynlluniau teithio llesol ac iach sy'n annog cerdded a beicio</p>	<p>Mae cyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gefnogi cynlluniau rhwydwaith llesol sy'n cael eu datblygu; rydym ni'n gwybod bod beicio, cerdded a symud ar olwynion yn ffyrdd pwysig iawn o wella llesiant corfforol a meddyliol pobl. Byddai darparu cyfleusterau ar safleoedd ysbytai i bobl adael eu beiciau'n ddiogel i deithio yn ôl ac ymlaen i gael triniaeth neu i staff deithio i weithleoedd yn gam cadarnhaol, er enghraifft, a chynllunio llwybrau teithio llesol a mynediad wrth adeiladu cyfleusterau newydd. Mae gan lawer o fudiadau gynllun benthyg beiciau o ryw fath hefyd, a fyddai unwaith eto'n rhywbeth cadarnhaol i'w sefydlu neu i gyfeirio ato os yw hwn eisoes ar waith. Yn ogystal â theithio llesol, mae sicrhau bod cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus i safleoedd yn bwysig iawn, a byddem yn disgwyl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymgysylltu â Trafndiaeth Cymru a ninnau'n gynnar pan fydd ganddynt safle newydd mewn golwg i sicrhau bod hyn yn cael ei gynllunio o'r cychwyn cyntaf.</p>
	<p>Lleihau allyriadau carbon a chynyddu capasiti ynni adnewyddadwy.</p>	<p>Mae llawer o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i leihau allyriadau carbon ar draws ystâd y sector cyhoeddus. Wrth gwrs, mae angen gwneud y gwaith hwn a gweithio mewn partneriaeth, ond gallech chi gyfeirio at waith presennol neu aralleirio'r cam i adeiladu'n benodol ar waith presennol, gan nodi bylchau, a fyddai'n helpu i leihau'r risg o ddyblygu. Gallech chi ystyried sut gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu gwerth. Beth yn ychwanegol y gellir ei gyflawni ar waith yr hinsawdd drwy gydweithio ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus? Er enghraifft, rhannu fflyd ar draws y sector cyhoeddus.</p> <p>Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth technegol a masnachol i ddatblygu prosiectau hyfiw sy'n cael eu harwain gan y gymuned yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn cynnig grantiau ar gyfer datblygu cynnar, a grantiau cyfalaf a benthyciadau i adeiladu prosiectau. Mae gan grwpiau hefyd wasanaethau rheolwr datblygu. Rydym hefyd yn ariannu Ynni Cymunedol Cymru, sefydliad aelodaeth nid-er-elw sy'n cefnogi ac yn cynrychioli grwpiau cymunedol sy'n gweithio ar brosiectau ynni yng Nghymru.</p> <p>https://www.llyw.cymru/y-gwasanaeth-ynni-ar-gyfer-grwpiau-sector-cyhoeddus-grwpiau-cymunedol</p>
	<p>Gwarchod, adfer a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol, tra'n cynyddu ac annog</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae diffyg llwyddiannau sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth yn y tabl 'Beth allai llwyddo ei olygu?'. Mae un yn y golofn 1-5 mlynedd sy'n cyfeirio at gynyddu mynediad cyfartal at asedau gwledig sy'n dda, ond gallai hyn hefyd fod yn berthnasol i gynyddu/gwella mynediad at fannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd o amgylch trefi hefyd. Un cynllun a fyddai'n berthnasol yw'r cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur sydd wedi'i gynllunio'n benodol i dargedu'r ardaloedd hyn gyda'i nod o greu amgylcheddau sy'n cefnogi byd</p>

	mynediad cyfartal i'n hasedau gwledig.	natur mewn cymunedau, gyda'r fantais ychwanegol o gynnwys cyllid a chynghor. Hefyd, mae hwn yn ganlyniad eithaf penodol felly byddai'n dda cynnwys targedau llwyddiant ehangach fel: Mae cyfraniad natur at fywydau pobl yn cael ei gydnabod yn briodol ac mae ei werth a'i bwysigrwydd yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau. neu Mae cyfleoedd wedi cael eu nodi lle mae camau gweithredu i helpu bioamrywiaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at lesiant pobl.
	Cefnogi cymunedau i liniaru ac ymdopi ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.	Er ein bod yn gwerthfawrogi y bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu am y camau yn nes ymlaen, byddai'n ddefnyddiol gweld manylion ynglŷn â sut gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu gwerth yma, e.e. cydlynu camau gweithredu'n fwy effeithiol, neu gasglu data.
Mae yna economi ffyniannus, a gefnogir gan weithlu medrus.	Gweithio gyda phartneriaid (gan gynnwys ysgolion, colegau a phrifysgolion) i sicrhau bod pobl o bob oed, yn cynnwys y rhai sy'n agored i niwed neu yn ein gofal, yn wydn ac yn barod ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach, neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys edrych ar Sgiliau Gwyrdd ar gyfer y dyfodol.	Mae'r syniad hwn yn wych, ond nid oes dim i ddangos sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd.
	Darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, profiad gwaith a phrentisiaethau o safon.	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan brentisiaethau rôl hanfodol o ran cefnogi adferiad yr economi a chefnogi'r rheini sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol ym marchnad lafur Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynyddu nifer y prentisiaethau a datblygu rhaglenni i ddiwallu anghenion cyflogwyr boed yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Mae blaenoriaethau buddsoddi yn cael eu llywio gan bedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, cyrff sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr gydag awdurdodau lleol yn aelodau amlwg ohonynt. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn elfen ganolog o'r dirwedd sgiliau ranbarthol, maent yn darparu gwybodaeth am y farchnad lafur i Lywodraeth Cymru ac maent wedi'u gwau i mewn i gynlluniau sgiliau a chyflogadwyedd. Mae'r wybodaeth a'r argymhellion a ddarperir ganddynt ar sail ranbarthol

		<p>ac is-ranbarthol, ynghyd â ffynonellau gwybodaeth eraill, yn allweddol o ran llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau, dylunio ein rhaglenni a defnyddio cyllid sgiliau. Lluniodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gynlluniau sgiliau a chyflogaeth strategol tair blynedd a oedd yn nodi blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol, yn seiliedig ar wybodaeth gan gyflogwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant gyda sicrwydd ansawdd yn gweithio gyda chyflogwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ddeall yr anghenion hyfforddi ac i ddarparu prentisiaethau i gyflawni amcanion busnes.
	<p>Gan weithio drwy'r corff rhanbarthol ac o fewn cyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, byddwn yn galluogi'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol i gael mynediad i addysg, cyflogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau.</p>	<p>Rydym yn cymryd eich bod chi drwy gyfeirio at y corff rhanbarthol, yn golygu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer gogledd Cymru, sydd â dyletswydd i lunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n ystyried Cynlluniau Datblygu Lleol Awdurdodau Lleol ac, ar ôl iddynt gael eu sefydlu, Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwarae rhan drwy weithio gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu rhanbarth i ddeall i le mae pobl angen teithio i gael gafael ar eu gwasanaethau, beth yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd o ran trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol, a pha wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen i ganiatáu i bobl ddefnyddio llai ar eu ceir preifat a defnyddio mwy ar ddulliau cynaliadwy o deithio, gan ddilyn yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021-symudedd-strategaeth-lawm.pdf (tud19). Bydd arweiniad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir i Awdurdodau Lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig ar sut bydd disgwyl iddynt ddatblygu'r cynlluniau hyn yn fanylach, ac mae gofyniad iddynt ymgysylltu â'r rhanddeiliaid lleol allweddol yn eu rhanbarth, a fyddai'n cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddatblygu eu cynlluniau, er enghraifft drwy ddarparu mynediad at eu modelau trafndiaeth a'u sylfaen dystiolaeth.</p>
<p>Gwell mynediad at dai o ansawdd da.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi dull Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru i atal digartrefedd a sicrhau bod unrhyw achosion ohono'n brin, yn fyr ac ddim yn cael ei ailadrodd. • Adolygu faint o dai sydd ar gael yn ein 	<p>Mae'n dda gweld tai'n cael eu cydnabod yn y cynllun llesiant ac yn cael eu nodi fel rhywbeth sy'n hanfodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. O'r gwaith a wnaed gan y siroedd, mae'n amlwg bod pwysigrwydd tai fforddiadwy wedi'i nodi fel ystyriaeth bwysig ar draws Conwy a Sir Ddinbych. Mae sôn am y cynlluniau Ailgartrefu Cyflym yn dangos bod cysylltiadau ar waith gyda'r strategaeth a'r meddylfryd presennol yn yr awdurdodau lleol, sy'n gadarnhaol iawn. Mae'n dda gweld y tabl ar dudalen 19 yn amlinellu 'sut beth yw llwyddiant'. Mae ar lefel eithaf uchel a byddai'n ddefnyddiol gwybod beth mae "amserlen resymol" yn ei olygu o ran helpu pobl sy'n ddigartref i gael llety.</p> <p>Mae'r cynllun yn darparu ffigurau ar faint o gartrefi newydd a adeiladwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, ond nid yw'r adroddiad yn crybwyll nifer y bobl mewn llety dros dro nac unrhyw</p>

	<p>sir i sicrhau bod darpariaeth o safon sy'n diwallu anghenion preswylwyr, gan eu helpu i fyw bywydau annibynnol mewn llety priodol am gyn hired â phosibl.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd uniongyrchol pobl, fel mannau gwyrdd, sy'n effeithio ar ansawdd eu bywyd a'u cyfranogiad dinesig. • Gweithio gyda'n cymunedau i ganfod a goresgyn rhwystrau i gael llety, gan sicrhau mynediad cyfartal at gyngor a gwybodaeth am yr opsiynau a'r llwybrau sydd ar gael i gael llety. • Hyrwyddo safonau tai sy'n cefnogi iechyd y bobl a'r teuluoedd sy'n byw ynddynt. 	<p>effeithiau o ganlyniad i'r pandemig. Ar ben hynny, mae nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro ar draws yr ardal yn sylweddol ond nid oes cysylltiad wedi'i wneud rhwng hyn a chynlluniau tai yn y dyfodol. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn rhan hanfodol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu a Strategaethau Tai Lleol awdurdodau lleol a ddylai hefyd fod yn sail i strategaeth ddigartrefedd yr Awdurdod Lleol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.llyw.cymru/asesiad-or-farchnad-dai-leol-lhma-canllawiau-ar-gyfer-awdurdodau-lleol Mae cyfres o fideos wedi cael eu cynhyrchu i helpu Awdurdodau Lleol: https://www.llyw.cymru/asesiad-or-farchnad-dai-leol-lhma-fideos-hyfforddi</p> <p>Mae cyllid ar gael i ariannu Cydlynedd Strategol ym mhob Awdurdod Lleol er mwyn iddynt allu cysylltu ar draws tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau (gan gysylltu â'r Byrddau Cynllunio Ardal). Y nod yma yw gyrru cydgyfrifoldeb dros ddigartrefedd o atal digartrefedd i raglenni adeiladu cyfalaf ar raddfa fawr i atal digartrefedd e.e. gofal cymdeithasol ac addysg a sefydliadau partner i fabwysiadu dull gwasanaeth cyhoeddus cyfan mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector.</p>
--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

